Grŵp Atebolrwydd a Dilysrwydd Plismona (PALG)

Pencadlys yr Heddlu
10 Mawrth 2020

COFNODION

Yn bresennol

Tîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

Lee Jones – Cadeirydd (LJ)	Prif Weithredwr (Interim)
Laura Armitt	Cynghorydd Gweithredol a Swyddog Cymorth
Hannah Jenkins-Jones (HJJ)	Arweinydd Strategol Craffu, Sicrwydd a Chydraddoldeb
Sarah Mahon (SM)	Swyddog Ymgysylltu a Sicrwydd

Heddlu De Cymru

Phil Ashby	Prif Uwch-arolygydd
Steve Jones	Uwch-arolygydd
Andy Valentine	Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro
Martyn Jones	Rheolwr Cydraddoldeb a Chynhwysiant

Aelodau PALG

Alex Drummond (AD)	Cynghorydd Annibynnol
Steve Bartley (SB)	Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Jasmine Jones (JJ)	Sipsiwn a Theithwyr Cymru
Judith Major (JM)	Hafal
Reynette Reynolds (RR)	Oasis
Paula Wade (PW)	Ffocws Dioddefwyr De Cymru

1. Cofnodion a Chamau Gweithredu

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gofnod gwir. Trafodwyd diweddariadau ar y camau gweithredu.

Cam Gweithredu 1 – Heddlu De Cymru i roi dadansoddiad o ddata ar y defnydd o rym, gan gynnwys categorïau defnydd o rym a'r math o drosedd.

I'w drafod fel rhan o eitem 3 ar yr agenda.

Cam Gweithredu 2 – Heddlu De Cymru i roi dadansoddiad o nifer y swyddogion a oedd wedi cael hyfforddiant ar ddefnyddio gynnau Taser a'r gymhariaeth rhwng nifer yr achosion o estyn gwn Taser a defnyddio gwn Taser.

Dywedodd PA wrth y grŵp fod 53% o swyddogion yr heddlu (752) wedi cael hyfforddiant ar ddefnyddio gynnau Taser. Ar hyn o bryd, nid oedd yr heddlu yn rhoi hyfforddiant ar ddefnyddio gynnau Taser i swyddogion yn ystod eu cyfnod prawf. Fodd bynnag, roedd hyn wrthi'n cael ei adolygu. Dywedodd PA hefyd fod y Swyddfa Gartref hefyd wedi cymeradwyo cynnig i gynyddu nifer y swyddogion sy'n cario gynnau Taser, a oedd i'w briodoli i'r amgylchedd plismona datblygol a'r angen i wella diogelwch.

Cyflwynodd PA ddata ar y defnydd o ynnau Taser rhwng 2017 a 2020, ac eglurodd y tactegau a ddefnyddir mewn perthynas â gynnau Taser. Gofynnodd SB a oeddent yn disgwyl i'r defnydd o ynnau Taser gynyddu ar ôl i fwy o swyddogion gael hyfforddiant ar sut i'w defnyddio. Dywedodd

PA fod y defnydd ohonynt yn debygol o gynyddu ar ôl i fwy o swyddogion gael hyfforddiant. Dywedodd PA y byddai unrhyw dueddiadau o ran data yn cael eu monitro gan fwrdd penodedig a sefydlwyd yn ddiweddar i adolygu data ar y defnydd o rym a stopio a chwilio. Gofynnodd SB a fyddai'r heddlu yn sicrhau bod y data hyn ar gael yn haws er mwyn i'r cyhoedd eu gweld. Dywedodd PA wrth y grŵp fod porth data wrthi'n cael ei ddatblygu, a fyddai'n sicrhau tryloywder o ran data'r heddlu ac a fyddai ar gael yn hawdd i'r cyhoedd drwy wefan Heddlu De Cymru. Awgrymodd LJ y byddai'n ddefnyddiol cynnwys diweddariadau gan y bwrdd hwn yng nghyfarfodydd PALG yn y dyfodol.

Gofynnodd SB a oedd yr heddlu wedi cael llawer o gwynion ynghylch gynnau Taser. Dywedodd PA mai nifer bach iawn o gwynion a gafwyd ynghylch y defnydd o rym, ond y gallai edrych i weld pa ganran o'r cwynion hynny oedd yn ymwneud â'r defnydd o ynnau Taser.

CAM GWEITHREDU – Cynnwys diweddariadau gan y 'bwrdd Pwerau Cymhellol' yng nghyfarfodydd PALG yn y dyfodol.

2. Diweddariad gan y tîm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Rhoddodd MJ drosolwg o swyddogaethau'r tîm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, a oedd wedi'i sefydlu'n ddiweddar yn Heddlu De Cymru. Dywedodd MJ fod tri aelod o staff yn y tîm a bod llawer o'r gwaith cychwynnol wedi cynnwys ailgysylltu'n allanol â phartneriaid ac yn fewnol â staff, gan nad oedd yr Uned Gydraddoldeb wedi bod yn weithredol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Dywedodd MJ wrth y grŵp eu bod hefyd yn gobeithio ailsefydlu Cynghorwyr Annibynnol a chysylltu'r rolau hyn â grwpiau cydlyniant cymunedol.

Dywedodd MJ fod yr agenda gweithlu cynrychioliadol yn parhau, gyda ffocws penodol ar gynrychiolaeth BAME yn Heddlu De Cymru.

Nododd MJ fod y tîm hefyd yn ystyried a oedd angen rhwydweithiau staff ychwanegol yn fewnol, megis y rhai ar gyfer niwroamrywiaeth ac oedran. Roedd datblygiadau diddorol yn dod i'r amlwg o ganlyniad i'r gwaith, a byddai MJ yn sicrhau bod y grŵp yn cael y wybodaeth ddiweddaraf.

Gofynnodd SB a oedd y Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd bellach wedi'i lansio. Dywedodd HJJ ac MJ fod y cynllun ar fin cael ei lansio ac y byddai ar gael i'r cyhoedd. Roedd y cynllun hefyd wedi'i drosi i fersiwn Hawdd ei Darllen. Dywedodd HJJ wrth y grŵp fod 8 swyddog arweiniol wedi'u neilltuo i bob amcan cydraddoldeb, er mwyn sicrhau bod cynnydd yn erbyn pob amcan yn parhau i gael ei wneud. Nododd SB fod Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru o'r farn bod y Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd yn ddogfen ardderchog. Roedd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn awyddus i weld rhai o gynlluniau eraill yr heddlu, a nododd y dylai eraill atgynhyrchu rhywbeth tebyg i gynllun Heddlu De Cymru. Diolchodd HJJ i SB am ei sylwadau, ac ychwanegodd fod PALG yn wir wedi dylanwadu ar amcanion y cynllun, yr oeddent yn ddiolchgar i'w cael. Awgrymodd LJ y byddai cynnydd yn erbyn y cynllun yn cael ei ymgorffori mewn eitemau ar agenda PALG yn y dyfodol.

CAM GWEITHREDU – Cynnwys eitem reolaidd ar yr agenda ar ddiweddariadau ar amcanion y Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd.

3. Y defnydd o rym ar blant

Dywedodd HJJ wrth y grŵp, yn dilyn y cyflwyniad ar y defnydd o rym yng nghyfarfod PALG a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2019, fod y grŵp wedi gofyn am ragor o wybodaeth am y defnydd o rym ar blant yn dilyn y data a gyflwynwyd.

Nododd PA, diolch i waith craffu'r grŵp ar y pwnc hwn, fod anghysondebau yn y data wedi'u nodi ers hynny. Esboniodd PA, pan nad oedd dyddiad geni unigolyn wedi'i nodi ar y ffurflen defnydd o rym, y byddai NICHE yn mewnbynnu'r dyddiad geni fel dyddiad y digwyddiad yn awtomatig. Byddai hyn wedyn cofnodi ei oedran fel '0'. Dyna'r rheswm pam y byddai'r data ar y defnydd o rym yn erbyn plant dan 10 oed wedi ymddangos yn uchel ac wedi peri pryder i aelodau PALG . Rhoddodd PA sicrwydd i'r aelodau bod y ffigurau cywir yn is na'r rhai a gyflwynwyd yn y cyfarfod diwethaf, a bod y data bellach yn cael eu hadolygu'n drylwyr.

Roedd PA hefyd wedi hapsamplu achosion lle roedd grym wedi'i ddefnyddio yn erbyn plant, er mwyn helpu i feithrin dealltwriaeth o amgylchiadau'r unigolion. Ar ôl cwblhau'r ymarfer, nododd PA fod y mwyafrif o'r achosion hyn yn cynnwys plant a theuluoedd a oedd yn agored i niwed, a bod nifer o unigolion yn hysbys i wasanaethau cymorth. Awgrymodd PA y byddai'n werth chweil trafod astudiaethau achos yn y dyfodol, ochr yn ochr â data ar y defnydd o rym, er mwyn helpu i ddeall amgylchiadau'r unigolion dan sylw. Roedd PW yn awyddus i ddeall pa gymorth roedd y rhieni'n ei gael, a phwysleisiodd bwysigrwydd atgyfeirio unigolion at Victim Focus. Dadleuodd AD, drwy beidio â chael cymorth priodol gan wasanaethau, nad oedd teuluoedd yn aml yn dod i sylw'r awdurdodau nes iddynt gyrraedd pwynt argyfwng. Nododd AD hefyd ei bod yn bwysig bod y profiadau hyn yn cael eu rhannu, er mwyn helpu i wneud synnwyr o'r data.

Adolygodd aelodau'r grŵp y sleidiau data a gyflwynwyd gan PA, a gwnaethant drafod eu pryderon ynghylch y defnydd o rym ar bobl hŷn. Cododd JM ei phryderon ynghylch effeithiau dementia sy'n peri i bobl hŷn ddod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol. Nododd SB hefyd nad oedd arwyddion cynnar dementia yn cael eu gweld yn aml, a bod yr heddlu'n cael ei alw ar ôl cyrraedd pwynt argyfwng. Gofynnodd PW a ellid dadansoddi'r data ymhellach yn gategorïau troseddau. Cadarnhaodd PA y byddai'r wybodaeth hon ar gael ac y byddai'n rhan o'r adnodd data a oedd wrthi'n cael ei ddatblygu ar gyfer y parth cyhoeddus.

Diolchodd PA unwaith eto i aelodau PALG am eu hadborth.

4. Stopio a Chwilio

Esboniodd HJJ pam roedd stopio a chwilio yn eitem ar agenda'r cyfarfod, a chyfeiriodd yn ôl at gyfarfod mis Medi 2019 lle y rhoddwyd diweddariad ar stopio a chwilio – Adran 60. Oherwydd bod y defnydd o bwerau stopio a chwilio ac Adran 60 yn cynyddu, cytunwyd y byddai'n ddefnyddiol i PALG adolygu'r defnydd ohonynt a thueddiadau cysylltiedig yn rheolaidd.

Data ar Stopio a Chwilio

Rhoddodd SJ drosolwg o ddata ar stopio a chwilio rhwng mis Ebrill 2019 a mis Chwefror 2020. Nododd SJ fod nifer y chwiliadau yn cynyddu, ond dywedodd ei fod yn fodlon ar y ffigurau hyn am fod hyn hefyd yn adlewyrchu'r cynnydd yn nifer yr achosion o droseddau cyllyll a throseddau treisgar. Cyfeiriodd SJ at Ymgyrch Sceptre, ac esboniodd fod tîm penodedig yn yr heddlu sydd â'r nod o leihau troseddau cyllyll a throseddau cysylltiedig.

Cyfeiriodd LA at y sleidiau data a gyflwynwyd i'r grŵp, a gofynnodd beth fyddai'r categori 'anhysbys' yn ei gynnwys yn y 'rheswm dros y chwiliad'. Nododd SJ fod y categori hwn yn cynrychioli ffurflenni nad oedd swyddogion wedi pennu 'categori rheswm dros y chwiliad' iddynt. Dywedodd SJ fod sylw wrthi'n cael ei roi i'r gwallau gweinyddol hyn drwy hyfforddiant i swyddogion.

Rhoddodd SJ drosolwg o ganlyniadau'r chwiliadau a'r pwerau cyfreithiol a ddefnyddiwyd, a nododd fod 12% o chwiliadau wedi arwain at arestio unigolyn. Roedd nifer o'r arestiadau hyn yn ymwneud â throseddau cyllyll a throseddau'n ymwneud â chyffuriau. Roedd SJ yn falch o rannu bod y gyfradd gydymffurfio â'r gofyniad i ddefnyddio camera fideo a wisgir ar y corff (BWV) bob tro y caiff unigolyn ei stopio a'i chwilio yn cyfateb i 89% ar hyn o bryd. Roedd y gyfradd hon ymhlith yr uchaf yn y wlad.

Rhoddodd SJ drosolwg o Adran 60, a dywedodd ei bod yn adnodd y bwriedir iddo gael effaith drwy atal achosion o wrthdaro neu sicrhau nad ydynt yn gwaethygu. Dywedodd SJ y gallai Arolygydd awdurdodi Adran 60 am gyfnod o 24 awr, ac y gallai Uwch-arolygydd ymestyn y cyfnod hwn i 48 awr. Nododd SJ, ar ôl i hysbysiad Adran 60 gael ei awdurdodi, y byddai'r heddlu yn rhoi gwybod i'r cyhoedd am hyn er mwyn annog tryloywder a chyfathrebu agored. Roedd y Swyddfa Gartref hefyd wedi nodi nad yw rhoi gwybod am hysbysiadau Adran 60 yn orfodol. Fodd bynnag, roedd yr heddlu yn parhau'n ymrwymedig i barhau i roi gwybod i'r cyhoedd am hysbysiadau o'r fath.

Cyfeiriodd SJ at ddau achos diweddar o droseddau cyllyll ym mis Ionawr a mis Chwefror 2020, a ddigwyddodd o fewn cyfnod o 24 awr yng Nghaerdydd. Yn dilyn y digwyddiadau hyn, cyhoeddwyd hysbysiad Adran 60 gan yr heddlu. Rhannodd SJ luniau o ddatganiadau i'r wasg a ddefnyddiwyd gan yr heddlu i roi gwybod i'r cyhoedd ar ôl i'r hysbysiad Adran 60 gael ei gyhoeddi. Cafodd mapiau yn dangos y ffiniau daearyddol roedd yr hysbysiad Adran 60 yn gymwys iddynt ac am ba hyd y byddai'r hysbysiad mewn grym, eu rhannu â'r cyhoedd hefyd. Nododd SJ fod 70 o chwiliadau wedi'u cynnal a bod dau unigolyn wedi'u harestio yn ystod y cyfnod hwn.

Cyfeiriodd SJ at y sylwadau a gafwyd gan aelodau o'r cyhoedd drwy'r cyfryngau cymdeithasol, ac roedd yn falch o weld bod y mwyafrif o'r sylwadau yn cefnogi dull gweithredu'r heddlu a'i ddefnydd o bwerau stopio a chwilio. Roedd cwestiynau a ofynnwyd gan aelodau o'r gymuned a'r ffaith bod yr heddlu wedi ymateb mewn ffordd agored a thryloyw wedi helpu i dawelu meddyliau aelodau o'r cyhoedd. Roedd SJ yn gobeithio bod yr enghreifftiau ymarferol hyn yn dangos y camau roedd yr heddlu yn eu cymryd pan oedd y prosesau hyn yn gymwys.

Adroddiad ar Anghymesuredd

Diolchodd LJ i SJ am y mewnbwn ar Adran 60, a gofynnodd i aelodau PALG ddarllen yr adroddiad ar anghymesuredd stopio a chwilio a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod. Ystyriwyd bod hwn yn adroddiad priodol i'w rannu â PALG am ei fod yn cynnwys gwybodaeth am achosion yn erbyn unigolion BAME a'r amgylchiadau y tu ôl i'r data.

Dywedodd SJ fod person du saith gwaith yn fwy tebygol o gael ei stopio na pherson gwyn yn Ne Cymru. Fodd bynnag, roedd hyn yn seiliedig ar ddata cyfrifiad 2011. Roedd yn bwysig nodi bod De Cymru bellach yn llawer mwy amrywiol ei natur, a bod gan y rhanbarth lefel uwch o boblogaeth dros dro. Felly, mae'n bosibl nad yw'r ffigur a nodwyd yn adlewyrchu'r sefyllfa wirioneddol.

Anogodd SJ aelodau PALG i godi unrhyw gwestiynau neu bryderon a allai fod ganddynt mewn perthynas â'r adroddiad. Gofynnodd JJ, petai achos o stopio a chwilio yn cael ei ystyried yn anghymesur, beth fyddai'r canlyniad i'r swyddog. Dywedodd SJ y byddai sgwrs yn cael ei chynnal â rheolwr llinell y swyddog yn y lle cyntaf, er mwyn deall yr amgylchiadau. Petai'n cael ei ystyried yn weithred fwriadol, byddai'r mater yn cael ei reoli drwy weithdrefnau rheoli perfformiad. Fodd bynnag, petai'n cael ei ystyried yn fater o anwybodaeth, byddai'n cael ei reoli drwy 'lwybr dysgu', a'i adolygu.

Nododd SJ fod system adrodd wrthi'n cael ei hymgorffori mewn ‘porth data’, er mwyn galluogi aelodau o'r cyhoedd i godi eu pryderon ynghylch y data ac annog gweithgarwch craffu cyhoeddus.

Cyfeiriodd JJ at y data demograffig, yn enwedig y dadansoddiad o ethnigrwydd ar gyfer sipsiwn a theithwyr. Nododd JJ nad oedd y ffigurau yn adlewyrchu nifer gwirioneddol y sipsiwn a theithwyr a chwiliwyd, am eu bod wedi'u cynnwys yn y categorïau ‘heb ei gofnodi’ a ‘heb ei ddatgan’, yn ôl pob tebyg. Esboniodd JJ mai'r rheswm dros hyn, yn ôl pob tebyg, oedd y byddai'r gymuned sipsiwn a theithwyr yn amharod i siarad â'r heddlu am eu hethnigrwydd. Trafododd y grŵp anghymesuredd y data yn seiliedig ar yr enghraifft hon a chysondeb y data a gyflwynwyd.

Diolchodd LJ i aelodau PALG am eu hadborth, a gofynnodd i'r grŵp fyfyrio ar yr adroddiad a chyfeirio unrhyw gwestiynau i dîm y Comisiynydd.

Diweddariad gan Dîm y Comisiynydd

Rhoddodd HJJ drosolwg o'r gwaith ansoddol a wnaed gan dîm y Comisiynydd er mwyn deall profiadau a chanfyddiadau'r cyhoedd o stopio a chwilio. Roedd tîm y Comisiynydd wedi cynnal tri grŵp ffocws yng Nghaerdydd yn ddiweddar, er mwyn deall profiadau pobl ifanc o stopio a chwilio a'u profiadau o gyswllt â'r heddlu yn well. Nododd HJJ ganlyniadau diddorol a ddeilliodd o'r gweithdai. Roedd yr adborth yn dangos bod swyddogion yn tueddu i ddilyn y prosesau. Fodd bynnag, nid oedd yr unigolion a oedd yn cael eu chwilio bob amser yn gwybod pam roeddent yn cael eu stopio am nad oeddent yn deall y jargon cyfreithiol a ddefnyddiwyd gan y swyddogion.

Trafodwyd Camerâu Fideo a Wisgir ar y Corff hefyd, ac roedd amheuon mawr ynghylch y defnydd a wnaed ohonynt. Roedd y mwyafrif o bobl ifanc yn teimlo eu bod yn cael eu gwylio, ac y byddai'r deunydd fideo yn cael ei ddefnyddio yn eu herbyn. Mae'r sesiynau wedi galluogi tîm y Comisiynydd i esbonio'r gofynion y mae angen i swyddogion gydymffurfio â nhw mewn perthynas â stopio a chwilio, a bod camerâu fideo hefyd yn cael eu gwisgo i'w diogelu.

Mae'r sesiynau hefyd wedi galluogi'r tîm i esbonio hawliau o ran stopio a chwilio. Dywedodd HJJ fod disgwyl i ragor o weithdai gael eu trefnu ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Abertawe a Merthyr Tudful/RhCT gyda phobl ifanc. Byddai tîm y Comisiynydd hefyd yn datblygu arolwg ar-lein i'w ddosbarthu'n ehangach er mwyn casglu amrywiaeth o brofiadau neu ganfyddiadau. Byddai canlyniadau'r arolwg a'r grwpiau ffocws yn cael eu crynhoi mewn un adroddiad, a'u trafod â'r heddlu yn y misoedd i ddod.

Diolchodd LJ i HJJ am ei mewnbwn, a gofynnodd i aelodau PALG roi gwybod iddo am unrhyw ddigwyddiadau y gallai tîm y Comisiynydd fynd iddynt i'w helpu gyda'i ymchwil.

Rhoddodd LJ wybodaeth i'r grŵp am yr etholiad ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar 7 Mai 2020, a dywedodd y byddai'r Comisiynydd yn dechrau'r cyfnod purdah ar ddiwedd mis Mawrth. Byddai canlyniadau'r etholiad yn cael eu cyhoeddi ddydd Llun 11 Mai.

Cyfeiriodd LJ at y newidiadau strategol a oedd wedi digwydd o ganlyniad i fewnbwn y grŵp, ac roedd yn gobeithio bod hyn yn adlewyrchu pa mor werthfawr oedd ei rôl i'r heddlu a thîm y Comisiynydd. Er mwyn cynnal y momentwm a pharhau i ehangu amrywiaeth a chynrychiolaeth y grŵp, roedd tîm y Comisiynydd yn bwriadu hysbysebu am Gynghorwyr Annibynnol i ymuno â'r grŵp. Byddai aelodau o'r cyhoedd â diddordeb mewn plismona a chydraddoldeb yn gallu gwneud cais i fod yn Gynghorwyr. Roedd HJJ yn awyddus i weld y rolau hyn yn cymryd rhan mewn gwaith hapsamplu, a nododd y byddai'r cyfleoedd hyn hefyd ar gael i bob aelod o PALG. Fodd bynnag, roedd HJJ hefyd yn ymwybodol ei efallai na fyddai modd i aelodau sy'n cynrychioli sefydliadau gymryd rhan yn yr ymarferion hyn, am nad oes ganddynt yr adnoddau i

ymdopi â'r llwyth gwaith. Gofynnodd HJJ am gymorth yr aelodau i rannu'r hysbyseb, ar ôl iddi fynd yn fyw.

5. Diweddariadau gan Bartneriaid

- Dywedodd JJ wrth y grŵp fod Sipsiwn a Theithwyr Cymru wrthi'n gweithio ar bolisi ar wersylloedd diawdurdod.
- Soniodd SB wrth y grŵp am gynllun gweithredu cenedlaethol a oedd yn cael ei ddatblygu er mwyn mynd i'r afael ag achosion o gam-drin pobl hŷn, a dywedodd mai ei nod oedd dod â phob rhanddeiliad allweddol ynghyd er mwyn mynd i'r afael â'r broblem ar lefel genedlaethol. Byddai Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn cyhoeddi'r camau a fyddai'n cael eu cymryd i atal pobl hŷn rhag cael eu cam-drin.
- Nododd RR yr hoffai weld yr heddlu/tîm y Comisiynydd yn dod i siarad â ffoaduriaid am stopio a chwilio ac Adran 60.
- Dywedodd JM wrth y grŵp fod Hafal wedi llwyddo i sicrhau'r noddfa iechyd meddwl gyntaf yng Nghastell-nedd Port Talbot, yr oedd disgwyl iddi agor ar ddiwedd mis Ebrill.

Tabl Camau Gweithredu

Cam Gweithredu	Disgrifiad	Perchennog
1	Cynnwys diweddariadau gan y 'Grŵp Pwerau Cymhellol' yng nghyfarfodydd PALG yn y dyfodol	Sarah Mahon
2	Cynnwys diweddariadau rheolaidd ar amcanion y Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd yng nghyfarfodydd PALG yn y dyfodol.	Sarah Mahon